OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2787

## Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001

## RHAN II

### ADOLYGU A MONITRO TREFNIADAU

**Cyngor a chymorth a ragnodir**

**2.** Dyma'r math o gyngor a chymorth a ragnodir at ddibenion adran 73(4)(b) o'r Ddeddf—

(a) rhoi cyngor a chymorth i blant perthnasol y bwriedir iddynt eu galluogi neu eu helpu i fynegi eu barn a'u dymuniadau ar lafar neu drwy ddefnyddio unrhyw ddull cyfathrebu arall, a

(b) rhoi cyngor (gan gynnwys gwybodaeth) i blant o'r fath ynghylch eu hawliau a'u lles.

**Rhoi gwybodaeth gan bersonau rhagnodedig**

**3.**—(1) Caiff y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson y mae paragraff (2) yn gymwys iddo roi gwybodaeth i'r Comisiynydd, wedi'i chofnodi ar unrhyw ffurf, y mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus ei chael at ddibenion

(a) adolygu a monitro trefniadau mewn perthynas â chŵ ynion, chwythu'r chwiban neu eiriolaeth, a

(b) asesu effaith methiant unrhyw berson i wneud trefniadau o'r fath yn unol ag adran 73(1A) o'r Ddeddf.

(2) Dyma'r personau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)—

(a) Mewn perthynas â darparu gwasanaethau rheoleiddiedig i blant yng Nghymru, darparwyr neu gyn-ddarparwyr gwasanaethau o'r fath, cyflogeion neu gyn-gyflogeion darparwyr neu gyn-ddarparwyr o'r fath, personau sy'n gweithio neu a fu'n gweithio i ddarparwyr neu gyn-ddarparwyr o'r fath yn wirfoddol, ac aelodau a chyflogeion a chyn-aelodau a chyn-gyflogeion y Cynulliad;

(b) (i) Aelodau (gan gynnwys aelodau etholedig), cyfarwyddwyr, gweithredwyr, swyddogion a chyflogeion person perthnasol, cyn-aelodau, cyn-gyfarwyddwyr, cyn-weithredwyr, cyn-swyddogion a chyn-gyflogeion person perthnasol a phersonau sy'n gweithio neu a fu'n gweithio i berson perthnasol yn wirfoddol;

(ii) At ddibenion is-baragraff (i) ystyr "person perthnasol" yw'r Cynulliad, unrhyw berson a grybwyllir yn Atodlen 2B i'r Ddeddf (heblaw'r Cynulliad) sy'n darparu gwasanaethau i blant neu mewn perthynas â phlant yng Nghymru neu berson sy'n darparu gwasanaethau o'r fath ar ran y person hwnnw neu o dan drefniadau ag ef.

(c) Derbynnydd neu reolwr eiddo person sy'n darparu neu a fu'n darparu'r gwasanaethau a ddisgrifir ym mharagraffau (a) neu (b), ei ddatodwr neu ei ddatodwr dros dro neu ei ymddiriedolwr mewn methdaliad, yn ôl fel y digwydd.